

Naws Sir Benfro

Dewch i flasu'r amrywiaeth o dirweddau godidog a diwylliant gwahanol Gogledd Sir Benfro trwy ymuno â phedwaredd Ŵyl Gerdded Preseli sy'n dathlu'r gorau o arfordiroedd, iseldiroedd a mynyddoedd syfrdanol - os nad cyfrinachol.

Ewch ati i archwilio gwylltineb y rhostiroedd a'r dreftadaeth archeolegol, canfyddwch afonydd a chymoedd cudd, coetiroedd hynafol, clogwyni arfordirol syfrdanol a thraethau diarffordd. Ceir dewis o lwybrau cerdded ar gyfer pob oed a gallu – o grwydro am ddwy filltir ar gyfer y teulu cyfan i hirdeithiau 17 milltir ar draws bryniau'r garreg las ar gyfer cerddwyr profiadol.

Tra byddwch yn mwynhau'r golygfeydd ysblennydd pam na wnewch chi flasu'r gwyliau a'r achlysuron a gynhelir yn ardal y Preselau. Ni fyddwch heb brofiadau i'ch diddori chi a'r teulu boed yn ymddiddori mewn bwyd, cerddoriaeth, treftadaeth neu'r iaith Gymraeg.

Dysgwch ragor am ardaloedd cudd Sir Benfro drwy ymweld â ***www.experiencepembrokeshire.com***.


Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Taith Gerdded
Cylch y Preseli
Aberteifi
Abergwaun
Hwlffordd
Dinbych-y-Pysgod
Penfro
Traeth
Poppit
B4548
A487
ABERTEIFI
Bae Ceibwr
Llandudoch
Afon Teifi
Trewyddel
Cilgerran
A478
B4582
Nanhyfer
Penrhyn Dinas
Bae
Trefdraeth
Parrog
Castell
Henllys
Boncath
B4332
Paen-caer
Pwynt
Carregwastad
Bae
Abergwaun
Wdig
Dinas
Trefdraeth
A487
Eglwyswrw
Blaenffos
Marnawan
Abergwaun
Pentre Ifan
Cwm Gwaun
B4329
Crymych
Llanychaer
Pontfaen
A487
A4219
Tegryn
B4313
Trecwn
Llanfyrnach
Mynachlogddu
Mathri
B4331
A40
Rosebush
Treletert
Llangolman
A478
B4330
B4329
Casblaidd
Maenclochog
Efailwen

Gwyliau

Gŵyl Maenclochog

Dydd Llun 2 Mai

11yb Eisteddfod Gadeiriol Maenclochog - Neuadd Gymunedol Maenclochog.

Dydd Sul 5 Mehefin

10yb - Y Gymanfa Bwnc Capel Tabernacl.

Nos Wener 20 Mai

7.30yh Darlith 'Brwydr y Preselau' - Neuadd Gymunedol Maenclochog.
Hefin Wyn yn olrhain rhan heddychiaeth yn y frwydr i gadw'r bryniau'n rhydd o filitariaeth ar ddiwedd y 1940au. Mererid Hopwood yn cadeirio. Darparir gwasanaeth cyfeithu ar y pryd.

Gŵyl Jazz Bwlchygroes

8yh – Neuadd Gymunedol Bwylchygroes
Dawns Mis Mai a Pharêd Ymbarelau gyda Dave Stradwick a'r Sussex Jazz Kings. Bar a byrbrydau ar gael, tâl mynediad £6.

Gŵyl Llandudoch

Cyfres o weithgareddau yn y pentref a'r penllanw yw digwyddiad 'St Dogmaels' Got Talent' ar Nos Wener 20 Mai ac Eisteddfod Llandudoch ar ddydd Sadwrn 21 Mai. Rhaglen lawn ar gael yn agosach at y dyddiad.

Gŵyl Werin Abergwaun

Mae Abergwaun yn gartref i un o wyliau cerdd bach gorau'r Deyrnas Unedig. Eleni, mae yna 2 gyngerdd sydd â thâl mynediad, sef Belshazzar's Feast a Hérétique. Mae'r tocynnau'n £10 ac yn £8 y gyngerdd, ac mae yna gynigion arbennig ar gael. Fe fydd 8 cyngerdd rad ac am ddim, a hefyd twmpath/Ceilidh am ddim i'r teulu. Hyn oll, law yn llaw gydag arddangosfeydd dawns a gweithdai – felly ble gwell i ddathlu ein cerdd a'n cân. I weld y dyddiadur diweddaraf rhowch glic ar ***www.pembrokeshire-folk-music.co.uk****.*

Penwythnos Ffair Wanwyn Neuadd Goffa Trefdraeth

Dydd Sadwrn 28 Mai

7.30yh - Baraka – *band 7 person y mae eu cyfuniad unigryw o gerddorion o Ghana, Senegal, Dominica a Gogledd a De Iwerddon yn creu sain sy'n mynnu eich bod yn dawnsio iddi! Gyda bwyd blasus a seddau tebyg i gabaret, fe fydd hon yn noson i'w chofio. Tocynnau'n £10 (£8 consesiynau).*

Dydd Llun 30 Mai

10yb tan 4yp – Stondinau bwyd a chrefft gyda lluniaeth blasus hefyd. *Fe fydd cyfle hefyd i droi eich llaw at weithgareddau yn ein gweithdai blasu, gyda'r dewis yn amrywio o Ddawnsio Affrica i Tai Chi a mwy. Ymunwch yn y ras feics gyfeillgar i deuluoedd o amgylch golygfeydd gwych Trefdraeth neu'r cystadlaethau caiacio poblogaidd lawr ar y Parrog. Am fanylion pellach, rhowch glic ar www.newportmemorialhall.co.uk neu ffoniwch 07772004218.*

Teithiau Cerdded

Sylwer bod angen i chi wisgo esgidiau addas a dillad sy'n cadw'r dŵr allan ar gyfer pob taith gerdded. Lefel y daith: - *hawdd*; - *cymedrol*; - *egnïol*; - *dewch â'ch cinio*; - *Taith Mewn Bws – Addas i bawb*; £ - *cost am y daith.*

DYDD SUL 1 MAI

10.30yb – Ystad Colby – Cerddwyr Sir Benfro

6-9 milltir, 3-4 awr, £ - am ddim. Cwrdd ym maes parcio Llanrhath SN162070, i archwilio Ystad Colby hyfryd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ni chaniateir cŵn.

DYDD LLUN 2 MAI

10yb – Taith Gerdded Camau@Iechyd Llandudoch

2.6 milltir, 1-2 awr, £ - am ddim. Cwrdd wrth gerflun y dyfrgi, Pont Aberteifi, cerdded i Ganolfan Natur Cymru am goffi (dewisol) a dychwelyd dros rhan o Gylch y Preseli erbyn tua 11.45yb.

DYDD MAWRTH 3 MAI

10yb – Taith Fws Llwybr Sain Mynyddoedd y Preseli - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych ac yna teithio i Fwlchgwynt ar gyfer dechrau'r Llwybr Sain. Teithio yn ôl drwy'r Preselau i Grymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

DYDD IAU 5 MAI

11yb – Carn Gelli - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

4 milltir, 2-3 awr. £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal Gwibiwr Strwmbl sy'n gadael am 11.10yb. Cerdded trwy Fferm Carne i Ddyffryn i ddal y bws 410 i ddychwelyd i Abergwaun erbyn 13.25yp.

DYDD GWENER 6 MAI

3yp – Taith Gerdded Hanesion a Chwedlau – Penmaendewi

2 filltir, 3 awr. £3 + tâl i barcio'ch car os yn berthnasol.
Cwrdd ym maes parcio'r Traeth Mawr, ger y blwch ffôn. Mae'r daith gerdded yn dilyn

Abaty Llandudoch

hanesion a chwedlau o Lwybr yr Arfordir a Charn Llidi. Fe welwch chi safle capel, olion o'r oes haearn ac olion neolithig, goleudai, brogaod mawr o garreg a llawer iawn mwy. Cyfle hefyd i weld y bywyd gwyllt yn yr ardal.

DYDD SADWRN 7 MAI

2yp – Taith Cwm Gwaun

2 filltir, 2 awr, £3. Cwrdd â'r tywysydd Mary Baker ym maes parcio Pontfaen, cerdded i'r eglwys sydd wedi ei chysegru i Sant Brynach ac yn ôl dros yr afon Gwaun, ar hyd llwybr coetir, heibio i dafarn enwog Bessie (lluniaeth yn opsiynol) cyn dychwelyd i Bontfaen.

DYDD SUL 8 MAI

10yb – Cenarth – Cerddwyr Sir Benfro

10-14 milltir, 5 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Cwrdd yn y maes parcio gyferbyn â'r maes carafannau yng Nghenarth. Dal y bws tuag at Llechryd a mwynhau taith linol yn ôl i Genarth. Ni chaniateir cŵn.

10.30yb – Taith Gerdded Ysbrydoliaeth y Dirwedd – Grŵp Llwybrau Cerdded Llandudoch

6 milltir, 4 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Cwrdd ym maes parcio pentref Llandudoch i archwilio'r tirweddau sydd wedi ysbrydoli arlunwyr lleol. Cludiant yn ôl i'r pentref o Draeth Poppit ar fws Roced Poppit am 3yp.

DYDD LLUN 9 MAI

10yb - Taith Gerdded Camau@Iechyd Llandudoch

2.6 milltir, 1-2 awr, £ - am ddim. Gweler yr wybodaeth o dan 2 Mai am fanylion.

9.30yb – Garn Fawr - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

2 filltir, 1.5 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal bws 412 i Dinas sy'n gadael am 9.40yb i gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir i'r Gaer a thrwy Gwm Abergwaun i Sgwâr Abergwaun erbyn 11.10yb.

DYDD MERCHER 11 MAI

10yb – Tycanol a Charnedd Meibion Owen

8.5 milltir, 5 awr, £5. Fe fydd y daith hon, dan arweiniad Brian John, yn dechrau ac yn gorffen ger Capel Caersalem SN 079367.

2yp – Taith Fws Llwybr Sain Mynyddoedd y Preseli - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych ac yna teithio i Fwlchgwynt ar gyfer dechrau'r Llwybr Sain. Teithio yn ôl drwy'r Preselau i Grymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

DYDD IAU 12 MAI

10.30yb – Trewyddel/Cippyn – Cerddwyr Sir Benfro

15+ milltir, 8 awr, £ – am ddim.
Cwrdd ym maes parcio'r Stryd Fawr yn Llandudoch. Fe fydd angen dringo dros weiren bigog yng Nghenarth. Ni chaniateir cŵn.

13.35pm – Cwm Rhigian - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

3 milltir, 1.5 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal bws 412 i

Ddinas sy'n gadael am 1.43yp i gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir a rhaeadr. Dychwelyd i Abergwaun ar y 412 sy'n gadael Trefdraeth am 15.24yp.

10.30yb – Taith Fws Dwyrain y Preselau - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

DYDD SADWRN 14 MAI

10yb – Taith y Capeli – Croeso I Gerddwyr Cilgerran

7.5 milltir, 4-6 hrs, £2. Digwyddiad i ddathlu dwy flynedd ers lansio Croeso i Gerddwyr yng Nghilgerran. Trwy ddefnyddio Bws y Ddraig Werdd a cherdded, fe fyddwn yn ymweld â 5 capel yn y gymuned. Fe fydd Emir Phillips yn son am hanesion y capeli unigol ac yn esbonio pwysigrwydd symudiad y capeli yng Nghymru.

Bae Ceibwr, llun gan Arthur Rope

10yb – Archwilio'r Preselau

6 - 7 milltir, 4 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Fairfield yng Nghrymych ar gyfer taith gylch ar y Preselau. NI CHANIATEIR CŴN

10.30yb – Taith Gerdded Nordig Traeth Niwgwl – Camau@Iechyd

1 -2 awr. Cysylltwch â support@steps2healthwalkingclub.org.uk i gadw'ch lle. Cwrdd yn y maes parcio (sydd â bloc o doiledau) ar ben deheuol y traeth.

1.30yp – Taith Gerdded Maenclochog

3 milltir, 1 awr, £ - am ddim (rhodd ar gyfer y lluniaeth). neu 8 milltir, 3-4awr, £ - am ddim. Cwrdd yn Neuadd Gymunedol Maenclochog. Arweinydd y daith yw Parcmon y Parc Cenedlaethol, Carol Owen. Mae'n ymlwybro trwy rodfeydd prydferth trwy'r coetir dros dir cors a choedwigaeth naturiol i Eithbed – mae gan gerddwyr yr opsiwn o ddilyn yr un llwybr yn ôl i'r neuadd am ddishgled. Fe fydd cerddwyr brwdfrydig sy'n fodlon mynd heb ddishgled yn y neuadd yn dilyn y llwybr a welwyd ar Weatherman Walking, i fyny at gopa Foel Cwmcerwyn ac yn ymuno â'r Heol Aur. Oddi yma, ewch tua'r gorllewin ar hyd crib Mynyddoedd y Preseli cyn dilyn drwy'r hen chwarel lechi yn Rosebush i safle'r hen orsaf drenau a chysylltu eto gyda rhan o'r llwybr y dechreuwyd arni i ddychwelyd i Faenclochog.

DYDD SUL 15 MAI

10.30yb – Coed Minwear – Cerddwyr Sir Benfro

6-9 milltir, 3-4 awr, £ – am ddim. Cwrdd yn y maes parcio ar waelod y rhiw ym Martletwy SN 033106. Caniateir cŵn ar dennyn.

11yb – Cerrig Gleision y Preselau

2-3 milltir, 3 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Festri'r Capel, Mynachlog-Ddu i archwilio cerrig gleision Carn Menyn gyda'r Athro Geoffrey Wainwright a dysgu am ei archwiliad archeolegol, sydd ar droed (haf 2011), ym Mynyddoedd y Preseli. Gorffen gyda the a chacen yn y Festri (opsiynol).

DYDD LLUN 16 MAI

9.30yb – Llwybr Trefdraeth - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

3.5 milltir, 2 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal bws rhif 412 i Drefdraeth sy'n gadael am 9.40yb. Dychwelyd i Abergwaun ar y 412 sy'n gadael Trefdraeth am 12.05yp neu 1.15yp.

10.00yb - Taith Gerdded Camau@Iechyd Llandudoch

2.6 milltir, 1-2 awr, £ - am ddim. Gweler yr wybodaeth o dan 2 Mai am fanylion.

DYDD MAWRTH 17 MAI

10yb – Taith Fws Llwybr Sain Mynyddoedd y Preseli - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych ac yna teithio i Fwlchgwynt ar gyfer dechrau'r Llwybr Sain. Teithio yn ôl drwy'r Preselau i Grymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

DYDD IAU 19 MAI

1.30yp – Escalwen - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

3.5 milltir, 2 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal bws rhif 412 i Drecwn sy'n gadael am 1.43yp i gerdded heibio i Eglwys Llanstinian a thrwy Fraich yn ôl i Abergwaun erbyn 15.30yp.

DYDD GWENER 20 MAI

3yp – Taith Gerdded Hanesion a Chwedlau – Penmaendewi

2 filltir, 3 awr. £3 + tâl i barcio'ch car os yn berthnasol. Cwrdd ym maes parcio'r Traeth Mawr, ger y blwch ffôn. Mae'r daith gerdded yn dilyn hanesion a chwedlau o lwybr yr arfordir a Charn Llidli. Fe welwch chi safle capel, olion o'r oes haearn ac olion neolithig, goleudai, brogaod mawr o garreg a llawer iawn mwy. Cyfle hefyd i weld y bywyd gwyllt yn yr ardal.

DYDD SADWRN 21 MAI

10yb - Taith Gerdded Brwydr y Preselau

7 milltir, tua 4 awr, £2. Cwrdd ym Mwlchgwynt i gerdded draw at Foêl Drygarn gan ddechrau gyda gwasanaeth byr. Carol Owen yn arwain. Trefnir gan Glychau Clochog i gofio am y safiad a wnaed i gadw militariaeth draw o'r bryniau ar ddiwedd y 1940au.

10.30yb – Taith Gerdded Nordig Cerrig Gleision Carningli – Camau@Iechyd

1 -2 awr. Cysylltwch â support@steps2healthwalkingclub.org.uk i gadw'ch lle. Cwrdd ym Medd Morris.

Pentre Ifan

DYDD SUL 22 MAI

10yb – Carregwastad – Cerddwyr Sir Benfro

6-9 milltir, 3-4 awr. £ - am ddim. Cwrdd ym maes parcio Garn Fawr SM 899388. Ni chaniateir cŵn.

DYDD LLUN 23 MAI

9.33yb – Mwnt a Beili - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

3.5 milltir, 2 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal bws rhif 412 i Gas-blaidd sy'n gadael am 9.43yb. Cerdded i Sealyham a Bryn Gomer i ddal bws rhif 412 i ddychwelyd i Abergwaun am 12.19yp.

10.00yb - Taith Gerdded Camau@Iechyd Llandudoch

2.6 milltir, 1-2 awr, £ - am ddim. Gweler yr wybodaeth o dan 2 Mai am fanylion.

Pennant Isaf, llun gan Dylan Moore

DYDD IAU 26 MAI

11yb – Pegwn y Gogledd - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

4 milltir, 2-3 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal Gwibiwr Stwmbl sy'n gadael am 11.10yb. Cerdded trwy Harmony i Ddyffryn i ddal bws rhif 410 i ddychwelyd i Abergwaun erbyn 13.25yp.

2yp – Taith Fws Llwybr Sain Mynyddoedd y Preseli - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych ac yna teithio i Fwlchgwynt ar gyfer dechrau'r Llwybr Sain. Teithio yn ôl drwy'r Preselau i Grymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

DYDD GWENER 27 MAI

11yb – Hanes ac Archeoleg Nanhyfer

1 filltir, 1½ awr, £1. Cwrdd â'r arweinydd Mary Baker yn Eglwys Nanhyfer i archwilio coed a nodweddion hynafol gan gynnwys "Yr Ywen Waedlyd", yr arysgrifen ar y cerrig a'r groes Geltaidd. Heibio i Groes y Pererinion a'r Olion Troed ar y ffordd i Gastell Nanhyfer. Yn ôl i lawr at y Bont Ganoloesol a'r Dafarn ble efallai y bydd cyfle i gael lluniaeth. Elfen ychwanegol opsiynol – taith fer yn y car i Bentre Ifan ble bydd cyfle i ddysgu am yr heneb hwn sy'n 5000 mlwydd oed.

DYDD SADWRN 28 MAI

10.30yb – Taith Gerdded Nordig Coed Minwear – Camau@Iechyd

1 -2 awr. Cysylltwch â support@steps2healthwalkingclub.org.uk i gadw'ch lle. Cwrdd ym Melin Blackpool.

10.30yb – Swanlake – Cerddwyr Sir Benfro

5-7 milltir, 3-4 awr. £ - am ddim. Cwrdd yn Longhouse / Parc Trewent SS 014978. Ni chaniateir cŵn.

2yp – Bedd Morris a Mynydd Dinas

5 milltir, 3 awr, £5. Fe fydd y daith hon, dan arweiniad Brian John, yn dechrau ac yn gorffen ym maes parcio Bedd Morris SN 037365.

Mynachlog Ddu

DYDD SUL 29 MAI

10yb – Yr Heol Aur

7 milltir, 5½ awr, £8 oedolion, £3 plant. Cwrdd â'r tywysydd Andrew Dugmore yn y man tynnu-i-mewn rhwng Crymych a Mynachlog Ddu SN167333. Cyfle i archwilio'r llwybr masnachu hynafol ar draws Mynyddoedd y Preseli. Cyfle i glywed hanesion am frwydr y Brenin Arthur gyda'r Twrch Trwyth fel yr adroddir yn llyfr "Y Mabinogi" a chyfle i ymweld â Charn Meini – ffynhonnell rhai o gerrig Côr y Cewri.

DYDD LLUN 30 MAI

10.00yb - Taith Gerdded Camau@Iechyd Llandudoch

2.6 milltir, 1-2 awr, £ - am ddim. Gweler yr wybodaeth o dan 2 Mai am fanylion.

9.50yb – Ynys Dinas - Taith Gerdded Camau@Iechyd Abergwaun

4 milltir, 3 awr, £ – tâl am y bws os yn berthnasol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ffoniwch 01348 872853 neu 874181. Cwrdd yn Sgwâr Abergwaun i ddal Roced Poppit sy'n gadael am 10yb. Cerdded i Bwllgwaelod. Dychwelyd i Abergwaun gan adael Pwllgwaelod am 13.30yp.

1pm – Taith Waldo

3.5 milltir, 2-3 awr, £ am ddim. Dechrau yng Nghapel Blaenconin (gyferbyn â Nantyffin). Taith â sylwadau ar un o feirdd pwysig yr iaith Gymraeg, Waldo Williams. Heddychwr pybyr a fu'n byw llawer o'i fywyd yn Llandysilio ac a gladdwyd yng Nghapel Blaenconin. Mae'r sylwebaeth yn Saesneg ond adroddir barddoniaeth Waldo yn y Gymraeg. Mae lluniaeth ar gael yn Neuadd Clunderwen ar ôl y daith.

DYDD MAWRTH 31 MAI

2yp – Taith Fws Llwybr Sain Mynyddoedd y Preseli - Bws Draig Werdd y Preseli

1-2 awr, £5. Cwrdd ym maes parcio Mart Crymych ac yna teithio i Fwlchgwynt ar gyfer dechrau'r Llwybr Sain. Teithio yn ôl drwy'r Preselau i Grymych. Rhaid cadw'ch lle ar bob taith drwy ffonio 0845 686 0242, opsiwn 3.

Gwybodaeth cadw lle

Bydd arweinwyr profiadol addas ar gyfer dechreuwyr a cherddwyr cyson yn arwain pob taith. Codir rhwng £1 a £6, rhai teithiau am ddim. Fe'ch cynghorir i gadw'ch lle rhag i chi gael eich siomi. Holl deithiau cerdded, oni nodir yn wahanol yn y daflen:
Ffon: 01834 862105/862109 ai Ebost: bethanyl@planed.org.uk

Teithiau Bws Draig Werdd y Preseli

Deiliaid Tocyn Bws Consesiynol Cymru Gyfan yn teithio'n rhad ac am ddim.
Rhaid cadwch lle ar gyfer pob taith. Ffoniwch: 0845 686 0242 – dewiswch opsiwn 3

Darparir cludiant ar gyfer cerddwyr gan ***Gymdeithas Cludiant Gwledig Preseli*** *(Draig Werdd Preseli)*. Ffoniwch 0845 686 0242 os am rhagor o fanylion.

Mae fersiwn Saesneg o'r daflen hon ar gael.
Os na fyddwch chi'n gallu dod o hyd I un, ffoniwch 01834 862105.

PLANED, *Yr Hen Ysgol,*
Heol yr Orsaf, Arberth
Sir Penfro SA67 7DU
Ffon: ***01834 862105***
www.planed.org.uk/ppwf
ebost: bethanyl@planed.org.uk

Ariennir y prosiect hon yr rhannol drwy Gynllun Datblygu Gwledig I Gymru 2007-2013 a gylludwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Cynllun gan Ian Moore, www.outhaus.biz • Argraffwyd gan Harcourt Colour Print • Cyhoeddwyd gan PLANED ©2011
Llun y Clawr "Carn Edward" gan Roger Cave